

Adroddiad gan yr IWA
Mai 2021

MAKING
WALES
BETTER



GWNEUD
CYMRU
WELL



Siarter Lleoedd Cymru





Yr awdur

Ellen Jones – Arweinydd Prosiect Deall Lleoedd Cymru, IWA. Cyn ymuno â'r IWA, bu'n gweithio mewn nifer o rolau dylanwadu a pholisi yng Nghymru.

Crëwyd y Siarter hon gan Grŵp Dylanwadu Lleoedd Cymru, a gynullwyd gan yr IWA. Rydym yn gynghrair o sefydliadau, ymarferwyr, ac academyddion sy'n llawn angerdd dros greu Cymru sy'n rhoi lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a diwylliannol pobl wrth galon ein cymunedau.

Mae'r canlynol yn aelodau:

Michael Woods - Prifysgol Aberystwyth
Pippa Coutts - Ymddiriedolaeth Carnegie y DU
Chris Jones - Stiwdio Chris Jones
John Heneghan - CLES
Llŷr ap Gareth - FSB Cymru
Vivienne Sugar - Annibynnol
Ellen Jones - Y Sefydliad Materion Cymreig
Auriol Miller - Y Sefydliad Materion Cymreig
Andy Regan - Y Sefydliad Materion Cymreig
Peter Williams - The Means
Lyn Cadwallader - Un Llais Cymru
Roisin Willmott - RTPi Cymru
Scott Orford - WISERD

Gwybodaeth amdanom ni

Ni yw'r Sefydliad Materion Cymreig, prif felin drafod Cymru.

Rydym yn herio, yn ysbrydoli ac yn ysgogi newid, gan wneud Cymru yn lle gwell i fyw ac i weithio i bawb.

Rydym yn annibynnol o'r llywodraeth a phleidiau gwleidyddol.

Drwy dynnu arbenigwyr o bob cefndir ynghyd, rydym yn sbarduno syniadau uchelgeisiol a gwybodus sy'n sicrhau ymrwymadau gwleidyddol i wella ein democratiaeth, ein gwasanaethau cyhoeddus a'n heconomi.

Rydym yn darparu llwyfannau ar gyfer trafod, cyfleoedd i bobl gael clust i'w lleisiau ac ymchwil sy'n gosod agendâu. Rydym yn cael ein hariannu gan ein haelodau, incwm o'n digwyddiadau a sesiynau hyfforddi, ac yn cael ein cefnogi gan ymddiriedolaethau, sefydliadau a chyrrff cyllido eraill.

Ein gweledigaeth ydy creu Cymru ble gall pawb ffynnu.

I gael rhagor o wybodaeth am yr IWA, ein gwaith polisi a sut i ymuno, naill ai fel cefnogwr unigol neu un sefydliadol, cysylltwch â:

IWA – Y Sefydliad Materion Cymreig,
56 Stryd James, Bae Caerdydd, CF10 5EZ
ffôn: 029 2048 4387
e-bost: wales@iwa.org.uk
www.iwa.wales

Gweledigaeth ar gyfer Dyfodol Lleoedd Cymru

Mae pandemig COVID-19 wedi amlygu ac wedi cyflymu problemau sydd wedi'u gwreiddio yn ein cymunedau ers tro. Mae ein lleoedd yn brwydro yn erbyn effeithiau dirywiad mewn adwerthu a'r cyfyngiadau symud, ac mae hyn yn ei dro wedi cael effaith ar lesiant economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Cymru.

Mae'n amlwg na fydd ein ffordd o fyw a gweithio yr un fath wrth i ni symud tuag at adferiad, ac mae cwestiynau mawr i'w gofyn ynglŷn â'r hyn y mae angen i ni ei wneud i sicrhau bod ein lleoedd nid yn unig yn cael adferiad, ond yn ffyniannus a chadarn.

Rydym yn credu bod yr atebion i'r cwestiynau hyn i'w cael o fewn ein cymunedau, a thrwy gydol y Bennod hon, rydym yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer Cymru ble caiff mwy o rym economaidd ei ddychwelyd i drigolion lleol, a ble bydd yn arferol i bobl gael mwy o lais yn y modd y byddant yn llunio eu cymunedau.

Pan fyddwn yn sôn am gymuned, yr hyn sydd gennym mewn golwg ydy cymuned lle a'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y lle hwnnw. Mae'n bwysig bod yr holl gymunedau lle yn groesawgar i bobl o gefndiroedd amrywiol a rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig, a bod cynllunwyr ac arweinwyr cymunedau sy'n seiliedig ar leoedd yn canolbwyntio ar greu amgylcheddau cynhwysol i bawb.

Er mwyn i leoedd Cymru ailgodi'n gryfach o effeithiau'r pandemig a'r cyfyngiadau economaidd, mae angen i ni weld grym yn cael ei ailddosbarthu yn ôl i'n cymunedau.

Dylai fod gan bob cymuned

- yr **offer** i allu deall eu hardal yn well
- y **llais** i gyfleu eu hanghenion i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau
- y **modd** i greu newid yn y lleoedd ble maent yn byw ac yn gweithio.

Mae'r adferiad wedi'r pandemig yn rhoi cyfle i ni gynllunio cymunedau sy'n gweithio i bobl ac sy'n meithrin iechyd a llesiant.

Dylai holl leoedd Cymru

- gael eu **cynllunio ar y cyd** â ac ar gyfer yr holl bobl sy'n byw ac yn gweithio yno
- bod wedi'u **cysylltu'n dda** ac yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol
- anelu at ddod yn Lleoedd **Cyflog Byw Gwirioneddol**, a chefnogi ymdrechion i greu a chynnal swyddi o ansawdd da
- darparu **gwasanaethau a chyfleusterau ymatebol** sy'n uchel eu perfformiad i bobl
- dathlu eu **diwylliant a'u hunaniaeth**.

Rydym yn credu y gall hyn greu effaith sy'n para trwy wella'r amgylchedd ffisegol a chreu lleoedd cynaliadwy a ffyniannus y mae cefnogi llesiant pobl yn ganolog ynddynt. Mae'r ddogfen hon yn nodi ein hargymhellion, yn gyntaf ar gyfer yr holl leoedd yng Nghymru (trefol, maestrefol, trefi a phentrefi) ac yna'n benodol ar gyfer lleoedd llai, a gaiff eu hesgeuluso'n aml mewn prosesau polisi.

Democratiaeth Leol Gryf

Mae'r pandemig wedi dangos i ni mai ar lefel leol yn aml y mae modd rheoli ymateb i argyfwng orau; eto i gyd, nid yw'r seilwaith yn ei le ar hyn o bryd i rymuso pobl i fod â rôl weithredol yn llunio'r lleoedd ble maent yn byw ac yn gweithio yn ystod cyfnodau arferol.

Argymhellion

Er mwyn gwireddu hyn, dylai Llywodraeth nesaf Cymru

1. Gyflwyno Cronfa Datblygu Cyngorau Tref a Chymuned. Byddai'r gronfa hon yn ariannu swyddogion datblygu er mwyn gallu ffurfio cyngorau tref a chymuned newydd, a chynorthwyo cyngorau sy'n bodoli eisoes i wella'r ffordd y maent yn cyfrannu at eu blaenoriaethau lleol eu hunain.
2. Creu grant i gynorthwyo awdurdodau lleol i gyflwyno mesurau democratiaeth cydgyngorol megis cyllidebu cyfranogol a chynulliadau dinasyddion, er mwyn rhoi llais cryfach i gymunedau mewn democratiaeth leol.
3. Cyflwyno Cronfa Galluogi Cymunedau i alluogi cymunedau i gwmpasu a chynllunio cynigion ar gyfer prosiectau a fydd yn eu helpu i ailgodi'n gryfach wedi'r pandemig. Byddai'r gronfa hon yn cefnogi cymunedau sy'n dueddol o fod yn brin o'r capasiti i roi'r sylw angenrheidiol i ysgrifennu a datblygu ceisiadau.
4. Darparu fframweithiau cyllido amlfwydd i gymunedau nad ydynt ynghlwm â chylchoedd etholiadol ac sy'n ymrwmo i gyllid cyfalaf a chyllid refeniw. Byddai hyn yn lliniaru'r risg y gallai prosiectau gyrraedd ymyl dibyn pan fydd llywodraethau'n newid.
5. Trin data fel gwasanaeth hanfodol. Byddai gwella trefniadau casglu a chyflwyno data ar lefel gymunedol yn arwain at gryfhau'r seiliau tystiolaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau gwybodus yn lleol. (see overleaf)



6. Ymrwymo i weithredu mesurau pendant i hyrwyddo amrywiaeth. Casglu a chyhoeddi data amrywiaeth, a sefydlu Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig bellgyrhaeddol i gynnwys cefnogaeth i bobl o gefndiroedd amrywiol neu rai sydd â nodweddion gwarchoddedig. Dylai hyn gynnwys llywodraeth leol a chynghorau tref a chymuned, yn unol â'r galwadau ym [Maniffesto ar gyfer Democratiaeth ERS Cymru](#).
7. Cyflwyno mesurau i roi mwy o lais i gymunedau mewn penderfyniadau ynglŷn â defnydd tir, er enghraifft galluogi Trosglwyddo Asedau Cymunedol, dysgu o Ddeddf Grymuso Cymunedau (Yr Alban) 2015. (see below)

Midsteeple Quarter, Dumfries

Cymdeithas Budd Cymunedol a sefydlwyd gan bobl Dumfries ac sy'n cael ei rheoli ganddynt ydy [Midsteeple Quarter](#). Eu nod ydy helpu i lunio dyfodol newydd ar gyfer canol y dref, dyfodol sy'n ymateb i anghenion y gymuned ac sy'n cael ei reoli er budd pobl leol.

Yr egwyddor craidd ydy mai gan bobl leol y mae'r atebion arloesol ar gyfer eu trefi. Trwy berchnogaeth a rheolaeth cymunedol, sicrhau perchnogaeth leol arwyddocaol ar ddyfodol y dref ydy'r llwybr gorau tuag at ffyniant cynaliadwy a rennir yn deg rhwng pawb.

Mae Midsteeple Quarter yn dod ag wyth eiddo ar y Stryd Fawr sy'n cael eu tanddefnyddio dan reolaeth gymunedol ac yn eu hadnewyddu i fod yn ardal fodern ar gyfer byw, gweithio, cymdeithasu, dysgu a mentro.



8. Sefydlu rhaglen genedlaethol ar gyfer perchnogaeth luosol. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru ymrwymo adnoddau datblygu busnes presennol a newydd i ddatblygu a thyfu mentrau cydweithredol, busnesau cymunedol, busnesau bach a chanolig, a mentrau cymdeithasol.
9. Cefnogi gwell ymgysylltiad cymunedol yn y broses gynllunio trwy
 - greu fframwaith cyfranogi fel gwaelodlin i gynllunwyr ymgysylltu â chymunedau
 - gynyddu capasiti yn nhimau cynllunio awdurdodau lleol
 - cefnogi sgiliau ehangach a chapasiti swyddogion sy'n canolbwyntio ar leoedd
 - sicrhau trefniadau effeithiol ar gyfer ymgysylltu digidol
 - gwella hygyrchedd ac argaeledd gwybodaeth ynglŷn â chynllunio i grwpiau nad ydynt yn dueddol o ymwneud a'r broses.

Deall Lleoedd Cymru

Gwefan ddwyieithog ydy Deall Lleoedd Cymru sy'n cyflwyno gwybodaeth am economi, nodweddion demograffig a gwasanaethau lleol dros 300 o leoedd yng Nghymru mewn fformat syml a chyfleus.

Ar hyn o bryd, dim ond ar lefel awdurdodau lleol y mae llawer o'r ystadegau a gesglir am Gymru ar gael ac yn rhy aml, caiff cymunedau trefi eu hanghofio wrth ffurfio polisi cyhoeddus, oherwydd ei bod yn anodd cael gafael ar ddata ar y lefel honno.

Mae Deall Lleoedd Cymru yn galluogi pobl i archwilio a chymharu ystadegau am drefi, gan gynnwys gwybodaeth am

- boblogaeth, dosbarthiad oedran, ethnigrwydd a hunaniaeth genedlaethol
- nifer y lleoedd ysgol cynradd ac uwchradd y pen
- diwydiannau cyflogaeth, pellteroedd cymudo, a chymwysterau.
- nifer yr ysbytai, meddygon teulu a deintyddion y pen.

Wedi'i chyllido gan Ymddiriedolaeth Carnegie y DU a Llywodraeth Cymru, mae'r wefan yn arf allweddol i alluogi grwpiau cymunedol, cynllunwyr a'r rhai sy'n ffurfio polisiau i ddeall trefi yn fwy manwl ac mae'n galluogi cymunedau i adnabod cyfleoedd yn eu hardal.



Lleoedd Ffyniannus yn Galluogi Llesiant

Mae'r pandemig wedi amlygu'r heriau i drefi a chanol trefi ledled Cymru. Mae llawer o'n lleoedd yn dioddef yn sgil dirywiad adwerthu, y cyfyngiadau symud, a newidiadau yn ymddygiad defnyddwyr. Mae'r adferiad yn rhoi cyfle i ni esblygu'r stryd fawr yn ein trefi a'u cynorthwyo i ddod yn lleoedd ble mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn treulio'u hamser hamdden, yn ogystal ag yn siopa.

Argymhellion

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru

1. Atal blerdwf trefol trwy fabwysiadu agwedd sy'n rhoi canol trefi'n gyntaf yn unol â'r galwadau yn nogfen [Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru - Plan the Wales we Need](#). Dylai'r system gynllunio:
 - Sicrhau bod gan ganol bob tref gymysgedd lewyrchus o ofodau adwerthu, gwaith, a hamdden
 - Parhau i symud cartrefi i mewn i ganol trefi, mewn ffordd nad yw'n ymyrryd ar eu datblygiad a'u hyfywedd masnachol. Dylai'r cartrefi hyn fod o ansawdd da, yn fforddiadwy ac wedi'u hadeiladu yn ôl y safonau di-garbon uchaf
 - Cynnwys mesurau i roi sylw i addasu adeiladau gwag yng nghanol trefi at ddibenion gwahanol er mwyn cefnogi cadernid cymunedol a chynaliadwyedd amgylcheddol
 - Ystyried effaith Covid ar brisiad eiddo busnes yn wyneb y lleihad yn niferoedd yr ymwelwyr, a newidiadau hir-dymor posib i arferion siopa ar y stryd fawr
 - Fel y dywed [maniffesto Ffederasiwn Busnesau Bach \(FSB\) Cymru](#), dylai polisiau ardrethi busnes a threthu adlewyrchu'r nodau strategol o ddatblygu lleoedd Cymru.



2. Parhau i gefnogi'r egwyddorion creu lleoedd a amlinellwyd yn Siarter Creu Lleoedd Cymru trwy

- Creu trefi sy'n rhoi pobl yn gyntaf trwy wneud cymdogaethau 20-munud yn egwyddor ganolog mewn polisiâu lleol ym meysydd cynllunio, cludiant, iechyd a'r economi
- cefnogi mentrau sy'n gwella mynediad i fannau gwyrdd, ac yn dod â seilwaith gwyrdd a natur i mewn i ganol trefi
- hyrwyddo ail-gyflwyno cyfleusterau cymunedol yng nghanol trefi, megis llyfrgelloedd, manau gwytodaeth a chanolfannau iechyd
- cefnogi'r Gymraeg a'n treftadaeth trwy integreiddio meysydd polisi a hyrwyddo gwell cydweithio rhwng cynllunwyr ieithyddol a chynllunwyr gofodol. Byddai hynny'n galluogi awdurdodau cynllunio lleol i roi ystyriaeth i'r Gymraeg mewn penderfyniadau ynglŷn â defnydd tir
- cryfhau cadwyni cyflenwi lleol a'u cyswllt â'r stryd fawr a lleoedd trwy ddiwygio prosesau caffael, a chefnogi cydgasglu a dosbarthu lleol a rhannu gofod adwerthu er mwyn meithrin a hyrwyddo menter garwch a chyflogaeth leol
- blaenoriaethu a buddsoddi mewn cludiant cynaliadwy i'r stryd fawr trwy integreiddio cerdded a beicio gyda'r rhwydwaith cludiant cyhoeddus ehangach, a sicrhau ei fod yn gwasanaethu'r holl ddefnyddwyr yn gyfartal
- sefydlu rhaglen gelfyddydol a diwylliannol ar gyfer trefi Cymru sy'n cynorthwyo ymarferwyr creadigol, mudiadau a chymunedau lleol i gydweithio er mwyn datblygu strategaethau diwylliannol lleol. (See below)
- Creu unedau hybu canol trefi a hyrwyddo gofodau fforddiadwy hyblyg ar gyfer defnydd dros dro neu dymhorol, neu i dreialu syniadau hadu lleol.



🔍 Future Paisley

Rhaglen flaengar ac eang o ddiwyddiadau, gweithgareddau a buddsoddiadau yn Paisley ydy Future Paisley. Mae'n defnyddio hanesion diwylliannol unigryw'r dref sydd o arwyddocâd rhyngwladol fel modd o drawsnewid ei dyfodol.

Mae Future Paisley yn anelu at greu canol tref diwylliannol llewyrchus, datblygu rhagoriaeth ddiwylliannol, codi cymunedau allan o dlodi, ac ychwanegu elfennau newydd i'r economi leol.

Mae'r rhaglen yn unigryw yn Yr Alban o safbwynt ei maint a'i chwmpas ac mae'n anelu at newid delwedd Paisley trwy ei sefydlu yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer adfywio diwylliannol a dangos y gall fod yn arweinydd ar gyfer trefi ym mhob man.

3. Cyflwyno Cronfa Dyfodol Trefi Cymru. Rydym yn cefnogi argymhelliad Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru y dylid creu Cronfa Dyfodol Trefi Cymru a fyddai'n helpu pob tref yng Nghymru i greu strategaeth ar gyfer ei dyfodol. Rhaid i'r strategaethau hyn gael eu cyd-gynllunio a rhaid bod data a thystiolaeth yn greiddiol iddynt.
4. Cefnogi galwad Y Weledigaeth ar gyfer Cymru Wledig am 'Fenter Trefi Clyfar' i sefydlu cronfa er mwyn sicrhau bod pob tref yng Nghymru yn gallu manteisio ar well mynediad i seilwaith digidol. Dylai'r fenter hon gynorthwyo trefi a busnesau lleol i ddefnyddio technolegau digidol i ddarparu gwasanaethau a chefnogi busnesau lleol.

Ap Tref Aberteifi

In 2016, wedi iddynt sicrhau cyllid grant, datblygodd Partneriaeth Tref Aberteifi ap dwyieithog ar gyfer y dref ar gyfer holl ddyfeisiau Android ac Apple.

Diben yr ap ydy darparu gwybodaeth a bod yn ganllaw i dreftadaeth a hanes y dref. Trwy ddefnyddio cyfuniad deallus o luniau, testun a llwybr trefol, mae'r ap yn helpu pobl i ddarganfod manau a chyfleusterau pwysig.

Mae'n cynnal proffiliau ar gyfer nifer o siopau a lleoliadau lletygarwch annibynnol canol y dref ac yn nodi eu lleoliad mewn perthynas â lleoliad defnyddiwr yr ap. Mae'n cynnwys gwybodaeth hefyd ynglŷn a digwyddiadau a gwyliau lleol a gynhelir yn y dref.

Mae'r ap yn cael ei hyrwyddo trwy gyfuniad o farchnata ar-lein, dosbarthu taflenni a chòd QR sydd i'w weld ar bob map o'r dref yn y meysydd parcio ac o amgylch canol y dref.

Mae'r ap yn defnyddio technoleg iBeacon ac yn cysylltu â chyfrif Google Analytics sy'n rhoi gwybodaeth ynglŷn ag o ble y bydd defnyddwyr wedi teithio a pha mor aml y maent yn ymweld. Anfonir yr holl wybodaeth i fusnesau canol y dref bob mis, ac mae hynny'n eu galluogi i addasu eu cynlluniau marchnata a gwerthu er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu mor effeithlon â phosib.



